Cefnogaeth Clwb ac Ymrwymiad Aelodau Swydd wag

20 awr yr wythnos (oriau pellach yn bosibl yn dibynnu ar set sgiliau)

Rhagymadrodd

Mae Ynni Lleol yn fenter gymdeithasol sy'n trawsnewid y farchnad drydan ar gyfer cymunedau lleol a chynhyrchu ynni adnewyddadwy ar raddfa fach. Ein cenhadaeth yw cefnogi sefydlu miloedd o Glybiau Ynni Lleol (GYL) lleol, nid er elw. Bydd hyn yn caniatáu i gynhyrchu ynni adnewyddadwy lleol gael ei ddefnyddio'n lleol, er budd defnyddwyr, cymunedau a chynhyrchwyr adnewyddadwy lleol; adeiladu system drydan lleol gwell.

Rydym yn dîm bach sy'n datblygu model busnes Ynni Lleol gyda sefydliadau technegol, datblygu lleol ac ynni cymunedol. Rydym mewn cyfnod o dwf cyflym ac yn edrych i recriwtio person blaengar a hunanysgogol i fod y cyswllt cyntaf ar gyfer pob ymholiad, ac i gefnogi creu Clybiau newydd.

Trosolwg o'r Tasgau

Tasg 1 Cyfathrebu

Byddwch yn arwain ar gyfathrebu ag Aelodau Ynni Lleol, gan gynnwys:

- Ymateb i bob ymholiad cychwynnol ac ymholiad cwsmeriaid.
- Cyfeirio cwestiynau technegol perthnasol at yr aelod cywir o staff.
- Trosolwg a thrin meddalwedd rheoli prosiect.
- Cyfathrebu'r holl wybodaeth berthnasol gyda Chlybiau a neilltuir i chi.
- Cynorthwyo i ddiweddaru manylion cwsmeriaid ar-lein.
- Cynorthwyo gyda hyfforddi partneriaid sy'n datblygu clybiau.

Tasg 2 Cefnogaeth technoleg ddigidol

Byddwch yn gyfrifol am:

Cefnogi cwsmeriaid i fabwysiadu technoleg ddigidol gan ddefnyddio mesuryddion clyfar a dyfeisiau clyfar.

Cadw cofnodion.

Tasg 4 Cymorth datblygu clwb

Cefnogi cymunedau yn eu proses ddatblygu i'w galluogi i redeg Clybiau Ynni Lleol

Gofynion eraill

Bydd gofyn i chi deithio'n achlysurol er mwyn cefnogi clybiau newydd yn eu proses sefydlu. Darperir hyfforddiant llawn ar gyfer hyn.

Rhaid i chi fod yn hyddysg mewn defnyddio meddalwedd Microsoft Office a Goglau ar gyfer cadw cofnodion, a chreu a diweddaru dogfennau

Byddwch yn gymwys i weithio o fewn fframwaith rheoli prosiect, gan ddarparu diweddariadau rheolaidd a chyfrannu at drafodaethau mewn cyfarfodydd rheoli.

Byddwch yn adrodd ar gynnydd i'r Swyddog Gweithredol Ymgysylltu Cymunedol yn wythnosol ac yn cymryd rhan mewn galwadau rheoli.

Cadw cofnodion cywir a chyfredol

Sgiliau ac arbenigedd

Angenrheidiol

Sgiliau TG da ac yn gallu dod yn gyfarwydd â gwahanol feddalwedd yn gyflym.

Dysgwr cyflym; bydd angen i chi ddeall hanfodion pob maes o'r busnes er mwyn gallu ateb neu ailgyfeirio ymholiadau.

Sgiliau trefnu da a phrofiad mewn rolau sy'n delio â chwsmeriaid.

Sgiliau cyfathrebu rhagorol gydag aelodau o'r gymuned a gweithwyr proffesiynol.

Diddordeb mewn ynni cymunedol a/neu weithio gyda chymunedau.

hunan gymhelliant.

Sgiliau blaenoriaethu.

Gwaith tîm

Dymunol

Profiad o weithio gyda chymunedau.

Gallu siarad ac ysgrifennu Cymraeg

Cyflog ac oriau

o.53pro rata CALI £25-7000

Gweithio o bell gyda chyfarfodydd achlysurol ledled y DU

Gweithio hyblyg

33 diwrnod o wyliau (CALI pro rata) gan gynnwys Gwyliau Banc

Sylwch, fel cwmni, mae angen i staff deithio i ddigwyddiadau gwaith ar drafnidiaeth gyhoeddus lle bynnag y bo modd. Bydd yr holl gostau teithio yn cael eu had-dalu.

Cysylltwch

Os oes gennych ddiddordeb, cysylltwch â'r e-byst isod gyda CV a phrofiad perthnasol. Pwysleisiwch eich sgiliau a'ch profiad priodol.

amy@energylocal.co.uk, mary@energylocal.co.uk

Am sgwrs anffurfiol neu os oes gennych unrhyw gwestiynau, ffoniwch Amy ar 07872606978

Dyddiad cau 3ydd Mawrth.